



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar Ofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc

Ionawr 2020

Atodiadau

ATODIAD A

Rhestr wirio ar gyfer ystyried cymhwysedd plant a phobl ifanc am ofal parhaus

Mae'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc yn berthnasol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion iechyd yn golygu bod angen pecyn gofal parhaus amlasiantaethol wedi'i deilwra arnynt **na all gwasanaethau arbenigol neu gyffredinol presennol ei ddarparu ar eu pen eu hunain**. Er bydd y prif reswm dros becyn o'r fath yn deillio o anghenion iechyd y plentyn neu'r person ifanc, mae'n debygol y bydd angen darpariaeth gwasanaeth amlasiantaethol sy'n cynnwys mewnbwn gan addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac weithiau eraill.

Bydd y broses gofal parhaus yn dechrau pan fydd yn dechrau dod yn amlwg y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc anghenion gofal parhaus na all gwasanaethau arbenigol neu gyffredinol eu diwallu ar eu pen eu hunain.

Nid yw'r rhestr wirio hon yn disodli'r broses gofal parhaus ac nid yw'r canlyniad o reidrwydd yn dangos cymhwysedd ar gyfer gofal parhaus. Fodd bynnag, bydd yn helpu ymarferwyr i ystyried pryd y bydd angen asesiad cyfannol llawn ac y gellid bod angen gofal parhaus ar blant a phobl ifanc.

Rhaid defnyddio'r rhestr wirio hon ar y cyd ag asesiad nyrsio neu wybodaeth ymarferol am y plentyn neu'r person ifanc.

Wrth gwblhau'r rhestr wirio, bydd yr asesydd iechyd yn rhoi gwybod i'r atgyfeirydd a'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu neu ofalwr am y penderfyniad.

Manylion personol

Dyddiad cwblhau	
Enw'r claf	
Dyddiad geni	
Rhif GIG	
Rhywedd	
Cyfeiriad parhaol	
Rhif ffôn	

Preswylfan presennol (os nad y cyfeiriad parhaol yw hwnnw)	
Enw'r cynrychiolydd (rhiant/gofalwr)	
Enw'r atgyfeirydd Dyddiad yr atgyfeiriad	

Crynodeb o'r atgyfeiriad gan sôn am sefyllfa'r plentyn neu'r person ifanc, ei hanes perthnasol a'i anghenion presennol, gan gynnwys crynodeb clinigol a'r risgiau sylweddol a nodwyd.

--

Rhestrwch y gwasanaethau arbenigol a chyffredinol amlasiantaethol sy'n cyfrannu at ofal y plentyn neu'r person ifanc. Enghreifftiau o wasanaethau cyffredinol: meddyg teulu, deintydd, ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, addysg. Enghreifftiau o wasanaethau arbenigol: gwasanaeth nyrsys plant cymunedol, tîm bwydo drwy'r ymysgaroedd, nyrsys arbenigol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, therapydd lleferydd ac iaith, deietegydd, ymgynghorydd cymunedol, ymgynghorydd arbenigol, gwasanaethau cymdeithasol.

--

Parthau gofal

Ymddygiadau sy'n herio

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Dim tystiolaeth o ymddygiad heriol Neu Rhai achosion o ymddygiad heriol y gellir eu rheoli ac nad ydynt yn creu rhwystyr neu risg sylweddol rhag ymyriad. Mae'r plentyn neu'r person ifanc fel arfer yn cydymffurfio â gofal. Neu Ymddygiad heriol sy'n dilyn patrwm rhagweladwy y gellir ei reoli gan ofalwr medrus neu weithiwr gofal* sy'n gallu cynnal lefel o ymddygiad nad yw'n peri risg i'r plentyn / person ifanc nac i bobl eraill.	C	
Ymddygiad heriol (difrifoldeb neu amllder) sy'n mynnu asesiad, cyngor ac adolygiad clinigol arbenigol. Neu Ymddygiad heriol (difrifoldeb neu amllder) sy'n peri risg sylweddol i'r plentyn / person ifanc a/neu i eraill ac sy'n mynnu dawn arbennig gan ofalwyr dyddiol ac ymatebion prydlon i reoli nifer yr achosion neu lefelau'r risgiau. Noder, gellir dangos tystiolaeth o'r ymddygiad ar sail amllder, neu mae'n bosibl y byddai rhoi'r gorau i gymorth medrus yn arwain at yr ymddygiadau hyn yn ailgynnau.	B	
Ymddygiad (difrifoldeb neu amllder) sy'n peri risg enbyd i'r plentyn / person ifanc ac i eraill ac sy'n mynnu ymyriad arbenigol brys i leihau neu i reoli'r risg a rhaglen ymyriad amlasiantaethol uchel ei harbenigedd.	A	

Gwybyddiaeth

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Dim tystiolaeth o broblemau datblygu neu ddysgu, na dryswch na phenbleth. Neu	C	

Nam gwybyddol sy'n mynnu rhywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth gyda gweithgareddau beunyddiol mwy cymhleth sy'n briodol i'r oedran, ond ymwybyddiaeth o risgiau sylfaenol sy'n effeithio ar ddiogelwch y plentyn / person ifanc yn amlwg.		
Nam gwybyddol (a allai gynnwys problemau amgyffred neu gofio) sy'n mynnu rhywfaint o oruchwyliaeth, anogaeth a/neu gymorth gydag anghenion gofal sylfaenol a gweithgareddau beunyddiol. Mae rhywfaint o ymwybyddiaeth o anghenion a risgiau sylfaenol yn amlwg. Fel arfer, gall y plentyn neu'r person ifanc wneud penderfyniadau priodol i'w anghenion gyda chymorth. Fodd bynnag, mae gan y plentyn neu'r person ifanc allu cyfyngedig hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhai agweddau ar ei fywyd, sydd felly yn ei roi mewn perygl o niwed, esgeulustod neu ddirywiad iechyd.	B	
Nam gwybyddol a allai gynnwys problemau amgyffred neu gofio nodedig ac efallai diffyg dealltwriaeth o amser a lleoliad. Mae gan y plentyn neu'r person ifanc ymwybyddiaeth dim ond o amrywiaeth gyfyngedig o anghenion a risgiau sylfaenol. Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei chael yn anodd hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn ag agweddau allweddol ar ei fywyd, sydd felly yn ei roi mewn perygl uchel o niwed, esgeulustod neu ddirywiad iechyd. Neu Er y gallai ddangos rhai dymuniadau ar amrywiaeth gyfyngedig o faterion, ni all wneud penderfyniad sy'n briodol i'w anghenion ar fwyaf y materion, hyd yn oed gyda goruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth.	A	

Anghenion seicolegol ac emosiynol

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Dim anghenion seicolegol neu emosiynol ychwanegol sy'n amlwg ar gyfer ei oedran a'i gam datblygu. Neu	C	

Symptomau cymedrol o iselder neu orbryder, cyfnodau o drallod sy'n ymateb i anogaeth a sicrwydd. NEU Mae angen anogaeth arno i gymell ei hun ar gyfer gweithgaredd ac i gymryd rhan yn y cynllun gofal a/neu weithgareddau beunyddiol.		
Iselder, gorbryder neu ddicter sy'n arwain at gyfnodau o drallod nad ydynt yn ymateb i anogaeth a sicrwydd. NEU Mae'n osgoi sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'n dangos anhawster o ran cymryd rhan yn y cynllun gofal a/neu weithgareddau beunyddiol.	B	
Pyliau o iselder sy'n mynd a dod yn gyflym ac sy'n mynnu cymorth ac ymyriad arbenigol. Mae'r rhain yn cael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant y plentyn neu'r person ifanc i'r fath raddau fel na all gymryd rhan mewn gweithgareddau beunyddiol megis bwyta, yfed neu gysgu neu eu bod yn peri risg i'r plentyn neu'r person ifanc. NEU Dadreoleiddio emosiynol/seicolegol penodol a/neu barhaus, problemau rheoli symbyliad sy'n peri risg ddifrifol i'r plentyn neu'r person ifanc neu i eraill, a/neu symptomau o salwch meddwl difrifol sy'n peri risg i'r person ifanc ac i bobl eraill; bydd hyn yn cynnwys ymddygiad uchel ei risg ac ymddygiad hunan-niweidio bwriadol.	A	

Cyfathrebu

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Cyfathrebu'n glir, ar lafar neu fel arall, yn briodol i'w ddatblygiad. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o'i brif iaith. Mae'n bosibl y bydd angen cyfieithu os nad Saesneg yw ei iaith gyntaf neu'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg os dyna yw ei ddewis iaith. Mae'n gallu deall neu gyfathrebu'n hawdd, ar lafar neu fel arall, yn ei brif iaith ac yn briodol i lefel ei ddatblygiad. Neu Mae angen anogaeth arno i gyfathrebu ei anghenion. Mae gallu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall a chyfathrebu'n briodol ar gyfer ei oedran a'i gerrig milltir datblygu cydnabyddedig. Mae'n bosibl y bydd angen ymdrech ychwanegol i sicrhau y caiff ei anghenion eu dehongli'n	C	

gywir neu mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol arno, yn weledol, trwy gyffwrdd neu gyda'i glyw. Gallai gofalwyr ragweld anghenion trwy arwyddion anllafar gan eu bod yn gyfarwydd â'r plentyn neu'r person ifanc. Iaith fynegiannol neu dderbyngar.		
Mae cyfathrebu ynglŷn ag anghenion sylweddol yn anodd ei ddeall neu ei fynegi, hyd yn oed pan gaiff ei annog, oni fydd yng nghwmni pobl gyfarwydd ac mae angen cymorth rheolaidd arno.	B	
Mae angen cymorth rheolaidd neu sylweddol arno gan ofalwyr a gweithwyr proffesiynol i alluogi'r plentyn i naill ai ddeall neu gyfathrebu syniadau, gofynion neu anghenion sylfaenol, hyd yn oed gyda phobl gyfarwydd.	A	

Symudedd

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Mae'n gallu symud yn annibynnol fel y bo'n briodol ar gyfer ei oedran a'i gam datblygu (gyda chymhorthion neu hebddynt). Neu Mae'n gallu sefyll fel y bo'n briodol ar gyfer ei oedran datblygu, ond mae angen cymorth arno a chefnogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cwricwlaidd neu allgyrsiol. Neu Mae'n methu â sefyll o gwbl ond yn gallu helpu gofalwr neu weithiwr gofal i'w drosglwyddo a/neu ei adleoli hyd lefel sy'n briodol i'w oedran datblygu.	C	
Mae'n methu â symud mewn ffordd sy'n ddatblygiadol briodol. Gofalir amdano mewn un lleoliad (gwely neu gadair) ac, yn sgil y risg o niwed corfforol, colled ffyrdder ei gyhyrau, hyfywedd ei feinwe neu boen wrth symud, mae angen ei leoli'n ofalus, ac ni all helpu neu y mae angen mwy nag un gofalwr i'w adleoli neu ei drosglwyddo. NEU Mae'n wynebu risg uchel o anafiadau sy'n mynnu cynllun rheoli wedi'i strwythuro i leihau'r risg. Mae hyn yn briodol i'w gam datblygu. NEU	B	

Gwingiadau anwirfoddol sy'n peri risg iddo ef ac i'r gofalwyr.		
Ni all symud o gwbl ac y mae mewn cyflwr clinigol ansefydlog hyd y bydd risg uchel o niwed corfforol difrifol wrth ei symud neu ei drosglwyddo. NEU Mae ei leoliad yn hanfodol i'w weithrediad ffisiolegol neu i'w fywyd.	A	

Maeth, bwyd a diod

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Mae'n gallu bwyta ac yfed yn ddigonol trwy'r geg i ddiwallu'r holl anghenion maeth. Mae hyn yn briodol i'w oedran datblygu. Neu Mae angen rhywfaint o gymorth sydd y tu hwnt i'r cyffredin ar gyfer ei oedran. NEU Mae angen goruchwyliaeth ac anogaeth gyda bwyd a diod sydd y tu hwnt i'r angen cyffredin ar gyfer ei oedran. NEU Mae angen cymorth a chynghor ar y rhiant, y gofalwr, y plentyn neu'r person ifanc ynglŷn â deiet yn sgil cyflwr sylfaenol a allai ei wneud yn fwy tebygol o beidio â chydymffurfio, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth o oblygiadau bwyta neu yfed. NEU Mae angen ei fwydo pan nad yw hyn yn ddatblygiadol gyffredin, ond nid yw'n cymryd llawer o amser.	C	
Mae angen ei fwydo i sicrhau ei fod yn bwyta digon ac mae'n cymryd amser maith (gan gynnwys bwydo hylifau). Mae therapydd lleferydd ac iaith wedi datblygu cynllun bwydo arbennig. NEU Mae'n methu â bwyta ac yfed ddigon trwy'r geg, a chymerir mwyafrif yr anghenion maeth trwy foddau artiffisial, e.e. trwy ddyfais fwydo ddi-drafferth trwy diwb, gan gynnwys tiwb nasogastrig.	B	
Dysffagia sy'n mynnu cynlluniau rheoli gydag ymyriad medrus ychwanegol i sicrhau maeth neu hydradiad digonol a lleihau'r risg o dagu ac allsugno a chynnal y llwybr anadlu, e.e. sugno. NEU	A	

Problemau o ran bwyta ac yfed sy'n mynnu ymyriad i reoli statws maeth. Colli pwysau'n anfwriadol sy'n peri risg i'r plentyn neu'r person ifanc ac sy'n mynnu ymyriad medrus. NEU Problemau sy'n ymwneud â dyfais fwydo sy'n mynnu asesiad medrus ac adolygiad. neu Bwyta ac yfed yr holl anghenion hylif a maeth trwy foddau mewnwythiennol.		
--	--	--

Ymataliaeth ac ysgarthu

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Mae'n gallu rheoli wrin ac ysgarthion (yn briodol i'w oedran). Neu Gofal ymataliaeth yw'r drefn arferol yn feunyddiol ac yn briodol i'w oedran: Anymataliaeth wrin sy'n cael ei rheoli trwy, er enghraifft, meddyginiaeth, mynd i'r tŷ bach yn aml, defnyddio padiau neu wain pidynnol ac ati. AC Mae ganddo lwyr reolaeth ar symudiadau ei goluddyn neu mae ganddo stoma sefydlog ac mae'n bosibl y bydd yn dioddef anymataliaeth ysgarthion o bryd i'w gilydd.	C	
Gofal ymataliaeth yw'r drefn arferol ond mae angen gwaith monitro i leihau'r risgiau, e.e. y rheiny sy'n ymwneud â chathetrau troethol, anymataliaeth ddwbl reolaidd a/neu reoli achosion difrifol neu reolaidd o rwymedd neu haint troethol neu hunan-gathetreiddio.	B	

Mae gofal ymataliaeth yn broblemus ac mae angen ymyriad amserol gan ymarferydd medrus neu ofalwr sydd wedi cael hyfforddiant. NEU Cathetreiddio ysbeidiol NEU Mae'n methu â rheoli ysgarthion sawl gwaith y dydd neu mae ganddo stoma y mae angen sylw arno sawl gwaith y dydd. Neu Mae angen dialysis peritoneol neu hemodialysis i'w gadw'n fyw.	A	
---	---	--

Hyfywedd y croen a'r meinwe

Disgrifiad (sy'n briodol i'r oedran)	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Dim tystiolaeth o niwed gwasgedd neu gyflwr y croen. Neu Tystiolaeth o niwed gwasgedd a gwasgedd neu fân anafiad y byddai angen ei drin. Neu Cyflwr croen sy'n mynnu ailasesu clinigol llai aml nag unwaith bob wythnos.	C	
Briw(iau) agored sy'n ymateb i driniaeth NEU Cyflwr croen gweithredol sy'n mynnu ailasesu o leiaf bob wythnos ac sy'n ymateb i driniaeth NEU Risg uchel o ddirywiad yn y croen sy'n mynnu ymyriad ataliol gan ofalwr medrus neu weithiwr gofal sawl gwaith y dydd. Hebddo, bydd y croen yn dirywio. Neu Briw(iau) agored nad ydynt yn ymateb i driniaeth ac sy'n mynnu monitro/ailasesu o leiaf bob dydd. NEU Cyflwr croen gweithredol sy'n mynnu gwaith monitro neu ailasesu o leiaf bob dydd.	B	
NEU Cynllun rhwymo arbenigol ar waith, sawl gwaith yr wythnos, sy'n ymateb i driniaeth. Angen goruchwyliaeth reolaidd gan ymgynghorydd Neu Cyflyrau'r croen neu losgiadau sy'n bygwth bywyd y mae angen trefn drallodus gymhleth arnynt dros gyfnod hir.	A	

Anadlu

Disgrifiad	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Anadlu'n arferol (ar gyfradd sy'n briodol i'w oedran) heb unrhyw anawsterau. Defnyddio anadlwyr, nebiwleiddwyr ac ati fel mater o drefn.	C	
Achosion difrifol o ddiffyg anadl nad ydynt yn ymateb i hunanreolaeth ac y mae angen mewnbwn a argymhellir gan arbenigwr arnynt. Mae angen defnyddio therapi ocsigen lefel isel bob nos neu ocsigen trwy fwgwd wyneb neu drwyn neu declynnau therapiwtig eraill i gynnal y llif aer i atal problemau iechyd eilaidd. NEU Mae ganddo symudedd gwael sy'n arwain at fod yn fwy agored i haint y frest. NEU Mae angen ffisiotherapi arno bob dydd i gynnal ei weithrediad resbiradu gorau posibl.	B	
Gall anadlu'n annibynnol trwy bibell y gall ei rheoli ei hun neu gyda chymorth gofalwyr/rhieni. Mae ganddo lwybr anadlu clir ond is-optimaidd heb diwb anadlu. NEU Gall anadlu heb gymorth yn ystod y dydd ond mae angen iddo fynd ar beiriant anadlu ar gyfer awyru cefnogol – gellir diffodd y peiriant am hyd at 48 o oriau heb niwed clinigol. NEU Mae'n destun gwasgedd positif parhaus ar y llwybr anadlu. Mae'n dioddef achosion o apnoea sy'n anodd eu rhagweld yn aml. A/NEU Anawsterau anadlu difrifol sy'n bygwth bywyd Anawsterau anadlu eithafol (neu anawsterau gyda phibell anadlu) sy'n gofyn am allsugno i gynnal y llwybr anadlu gan ofalwr cwbl gymwys neu bibell anadlu y mae angen ei sugno'n rheolaidd ac sy'n hanfodol ar gyfer anadlu. A/NEU Mae angen peiriant anadlu gyda'r nos ar gyfer resbiradu gwael iawn. Mae ganddo ysfa resbiradu a byddai'n goroesi pe bai'r peiriant yn cael ei ddatgysylltu ond ni fydd yn iach a bydd angen cymorth yr ysbyty arno. NEU Mae'n methu ag anadlu'n annibynnol ac mae angen peiriant anadlu mecanyddol parhaus arno. Nid oes ganddo ysfa resbiradu pan fydd yn cysgu neu'n ddiymwybod ac mae angen y peiriant a chymorth un wrth un pan fydd yn cysgu, gan y bydd ei ddatgysylltu'n achosi marwolaeth.	A	

Pibell anadlu hynod ansefydlog, achludo'n rheolaidd, anodd newid tiwbiau.		
---	--	--

Cyffuriau, therapïau a meddyginiaethau

Disgrifiad	Sgôr =	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Meddyginiaeth gan riant, gofalwr anffurfiol neu y plentyn / person ifanc ei hun	C	
Mae angen gofalwr ffurfiol, cynorthwydd addysgu neu nyrs sydd wedi'i hyfforddi'n addas i roi meddyginiaeth yn sgil:- • Oedran • Diffyg cydymffurfio • Math o feddyginiaeth • Llwybr y feddyginiaeth • Ble y caiff y feddyginiaeth ei rhoi Neu Mae angen cynllun rhoi meddyginiaeth gan weithiwr gofal neu nyrs gofrestredig sydd wedi'i hyfforddi'n benodol ar gyfer y dasg hon. A Monitro oherwydd newidiadau posibl yn y cyflwr meddygol a all fod yn ddidrafferth.	B	
Mae ganddo gynllun cyffuriau sy'n mynnu rheolaeth gan nyrs gofrestredig (o fewn rhagnodiad) yn sgil rheolaeth symptomau neu gyflwr newidiol a/neu ansefydlog. neu Mae ganddo gynllun meddyginiaeth sy'n mynnu rheolaeth feunyddiol gan nyrs gofrestredig ac atgyfeiriad at ymarferydd meddygol i sicrhau bod y symptomau sy'n ymwneud â chyflwr sy'n newid/dirywio'n gyflym yn cael eu rheoli'n effeithiol. Neu Mae ganddo gynllun meddyginiaeth sy'n mynnu rheolaeth feunyddiol gan nyrs gofrestredig ac atgyfeiriad at ymarferydd meddygol i sicrhau bod y symptomau a'r boen sy'n ymwneud â chyflwr sy'n newid/dirywio'n gyflym yn cael	A	

eu rheoli'n effeithiol, lle bydd angen monitro symptomau a'r rheolaeth ohonynt un wrth un.		
--	--	--

Trawiadau neu newid cyflyrau ymwybyddiaeth Disgrifiad	Sgôr	Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
Dim tystiolaeth o drawiadau neu newid cyflyrau ymwybyddiaeth. Neu Hanes o drawiadau neu newid cyflyrau ymwybyddiaeth ond nid yn y tri mis diwethaf. Mae'r feddyginiaeth (os oes rhai) yn sefydlog.	C	
Trawiadau achlysurol neu gyfnodau o anymwybod sydd wedi digwydd o fewn y tri mis diwethaf sy'n mynnu goruchwyliaeth gofalwr neu weithiwr gofal i leihau'r risg o hunan-niweidio.	B	
Newid cyflyrau ymwybyddiaeth neu drawiadau sy'n arwain at anymwybod ac y gellid bod angen ymyriadau medrus rheolaidd (amlach nag unwaith y mis) arnynt i leihau'r risg o niwed a gellid bod angen i nyrs gofrestredig neu ofalwr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig roi meddyginiaeth. Neu Trawiadau difrifol heb reolaeth bob dydd neu'n amlach sy'n arwain at anymwybod nad ydynt yn ymateb i driniaeth ac sy'n arwain at debygolrwydd uchel o risg i'r plentyn / person ifanc neu i eraill. Mae angen ymyriadau beunyddiol gan nyrs gofrestredig, a fydd yn defnyddio barn glinigol i ddethol a gweithredu o ddetholiad o ymyriadau priodol i reoli trawiadau a thrin unrhyw risgiau cysylltiedig.	A	

Anghenion gofal sylweddol eraill i'w hystyried:

Gallai fod amgylchiadau, ar sail fesul achos, pan fydd gan blentyn neu berson ifanc anghenion penodol na chwmpesir gan y parthau gofal a ddisgrifir uchod. Cyfrifoldeb yr asesydd yw pennu a chofnodi graddfa a math yr anghenion hyn. Bydd angen pwysoli difrifoldeb yr angen a'i effaith ar y plentyn neu'r person ifanc, gan ddefnyddio barn broffesiynol yr asesydd, mewn ffordd debyg i'r parthau eraill. Bydd angen defnyddio'r gwaith pwysoli hwn yn y penderfyniad terfynol hefyd.

Canlyniadau

Parth gofal	C	B	A
--------------------	----------	----------	----------

Ymddygiad heriol			
Gwybyddiaeth			
Anghenion seicolegol ac emosiynol			
Cyfathrebu			
Symudedd			
Maeth, bwyd a diod			
Ymataliaeth			
Hyfywedd y croen a'r meinwe			
Therapiau cyffuriau anadlu			
Therapiau cyffuriau			
Newid cyflyrau ymwybyddiaeth			
Anghenion gofal sylweddol eraill			

Byddai sgôr sy'n cynnwys 'C' yn bennaf yn dangos bod yr anghenion gofal yn isel a/neu'n arferol a gellid eu diwallu drwy wasanaethau craidd. Gallai sgôr sy'n cynnwys 'B' yn bennaf ddangos bod angen gofal parhaus yn dibynnu ar lefel y mewnbwn sydd ei hangen a sgiliau. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad llawn i ystyried gofal parhaus plant a phobl ifanc. Byddai 'A' yn bennaf yn dangos anghenion nyrsio ac ystyriaeth am ofal parhaus plant a phobl ifanc.

Argymhelliad	Ticiwch fel y bo'n briodol	Sail resymegol
Gellir diwallu'r anghenion iechyd a nodir drwy wasanaethau cyffredinol a/neu arbenigol presennol.		
Ni ellir diwallu'r angen iechyd a nodir trwy wasanaethau cyffredinol a/neu		

arbenigol presennol ac mae angen asesiad llawn ar gyfer gofal parhaus plant a phobl ifanc.		
--	--	--

Llofnod yr asesydd iechyd:

Dyddiad:

Rhaid rhoi gwybod i'r atgyfeirydd a'r plentyn neu'r person ifanc a/neu ei deulu/gofalwyr am y canlyniad a'r penderfyniad i barhau â'r broses gofal parhaus neu beidio. Rhaid darparu sail resymegol.

Atodiad B**Cenedlaethol – Nyrsio Plant Cymunedol – Teclyn Cymorth Penderfynu**

Rhif Datrysiaid Gwybodaeth Gofal Cymunedol		Rhif y GIG		Rhif yr atgyfeiriad	
Enw cyntaf		Enw canol		Cyfenw	
Dyddiad geni:		Oedran		Oedran (os mai amcan yw)	
Rhywedd			Cenedligrwydd		
Crefydd			Ethnigrwydd		
Prif gyfeiriad					
Cod post		Cyfeiriad e-bost			
Rhif ffôn cartref		Rhif ffôn symudol		Rhif ffôn gwaith	
Dewis iaith		Dewis ddull o gysylltu		A oes angen cyfieithydd?	

A oedd y plentyn neu'r person ifanc yn rhan o'r broses o gwblhau'r teclyn?

OEDD/NAC OEDD

A oes gan y plentyn neu'r person ifanc eiriolwr annibynnol neu gynrychiolaeth rhiant? (O 14 mlwydd oed, dylid cyfeirio pob plentyn neu'r person ifanc am eiriolaeth annibynnol) **OES/NAC OES**

Os oes, a wnaeth y cynrychiolydd gymryd rhan yn y broses o gwblhau'r teclyn?

DO/NADDO

A oes asesiad o alluedd meddyliol wedi'i gynnal?

(bydd hyn yn berthnasol i bob person ifanc o 16 mlwydd oed na all wneud rhai penderfyniadau neu unrhyw benderfyniad) **OES/NAC OES**

Manylion cyswllt y cynrychiolydd (enw, cyfeiriad a rhif ffôn)

Enw	Manylion
------------	-----------------

--	--

Manylion personol

Crynowch sefyllfa'r plentyn neu'r person ifanc, ei hanes perthnasol a'i anghenion presennol, gan gynnwys crynodeb clinigol a risgiau sylweddol a nodir a ddaeth i'r amlwg o'r asesiad amlddisgyblaethol.

--

Crynowch farn y **plentyn neu'r person ifanc** am ei anghenion gofal ac a yw'n ystyried bod yr asesiad amlddisgyblaethol yn cyfleu'r rhain yn gywir:

--

Crynowch farn y **gofalwr** ar yr anghenion gofal a'r cymorth sydd ei angen arno fel gofalwr ac a yw'n ystyried bod yr asesiad amlddisgyblaethol yn cyfleu'r rhain yn gywir.

--

--

Manylion personol

Nodwch isod a yw'r plentyn, y person ifanc neu'r rhiant/gofalwr (neu ei gynrychiolydd) wedi cyfrannu at yr asesiad o'i anghenion a sut. Os nad oeddent yn rhan o'r broses, cofnodwch a gawsant wahoddiad neu a wnaethant wrthod cymryd rhan

.

Rhestrwch yr asesiadau a thystiolaeth allweddol arall a ystyriwyd wrth gwblhau'r teclyn, gan gynnwys dyddiadau'r asesiadau:

Tystiolaeth	Dyddiad

Dull Pennu Prif Anghenion Iechyd

Wrth archwilio parthau gofal, argymhellir defnyddio'r pedwar pennawd a nodir isod er mwyn cipio'r gwasanaeth, y staff a'r sgiliau y gellid bod eu hangen i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae hyn hefyd yn caniatáu trafodaeth ar wydnwch y rhieni a'u gallu i ofalu.

Y bwriad yw nodi'r anghenion sy'n parhau i fod heb eu diwallu ar ôl ystyried gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol.

Natur: Mae hyn yn disgrifio nodweddion penodol anghenion plentyn neu'r person ifanc (a all gynnwys anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol) a math yr anghenion hynny. Mae

hyn hefyd yn disgrifio effaith gyffredinol yr anghenion hyn ar y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys y math o ymriadau (eu 'hansawdd') sydd eu hangen i'w rheoli.

Dwysedd: Mae hyn yn ymwneud â graddfa ('nifer') a difrifoldeb (graddau) yr anghenion a'r cymorth sydd ei angen i'w diwallu. Byddai hyn hefyd yn golygu cynnwys yr angen am gymorth seibiant byr pan fydd y gofal yn gyson ac yn drwm.

Cymhlethdod: Mae hyn yn ymwneud â'r anghenion eu hunain a sut maent yn rhyngweithio i wella'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr/cyflyrau a/neu reoli'r gofal. Gall hyn godi gyda chyflwr unigol neu gall hefyd gynnwys presenoldeb sawl cyflwr neu'r rhyngweithiadau rhwng dau gyflwr neu fwy. Dylid bod trafodaethau ar y tasgau hynny y gellid eu dirprwyo a'r anghenion hyfforddi a'r trefniadau llywodraethiant y gellid bod angen eu rhoi ar waith. Pan na ellir dirprwyo tasg, mae'n bosibl y bydd angen ystyried pecyn gofal wedi'i deilwra.

Natur anrhagweladwy: Mae hyn yn disgrifio'r raddfa y mae anghenion yn newid, gan greu heriau i'w rheoli. Hefyd, mae'n ymwneud â lefel y risg i iechyd yr unigolyn os na ddarperir gofal digonol ac amserol. Mae'n debygol y bydd gan rywun y mae angen gofal iechyd anrhagweladwy arno gyflwr newidiol neu ansefydlog neu gyflwr sy'n dirywio'n gyflym. Gallai hyn helpu i ffurfio'r math o becyn gofal sydd ei angen a lefel yr arbenigedd sydd ei hangen gan ofalwr hyfforddedig.

Rôl yr asesydd gofal iechyd: Dylai'r asesydd iechyd plant a phobl ifanc enwebedig **arwain cam asesu'r** broses gofal parhaus ar ran y darparwyr. Dylai'r asesydd iechyd plant a phobl ifanc enwebedig fod yn ymarferydd iechyd sydd â phrofiad mewn iechyd plant a phobl ifanc a dylai feddu hefyd ar brofiad ac arbenigedd mewn asesu iechyd, gwybodaeth ymarferol ragorol o'r polisi ar y canllawiau, a phriodweddau arwain da. I sicrhau asesiad priodol, teg a chyson, dylai'r asesydd iechyd plant a phobl ifanc feddu ar sgiliau a galluoedd perthnasol yn y meysydd canlynol:

- Gofal parhaus plant a phobl ifanc
- Datblygiad plant a phobl ifanc
- Asesu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr

Yr asesydd iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y plentyn / person ifanc a'i deulu yn cael gwybod am y broses o'r asesiad i'r penderfyniad gan y panel penderfynu amlasiantaeth. Rhaid cael cydsyniad gan y plentyn / person ifanc a/neu ei deulu a dylai gynnwys cydsyniad i rannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau partner.

Parthau gofal

Bwriad y ddogfen hon yw casglu gwybodaeth am yr asesiad ar ffurf sy'n rhoi'r plentyn neu'r person ifanc wrth graidd y gwaith cynllunio'r gofal. Lle bo'n bosibl, dylid defnyddio'r crynodeb hwn o'r angen mewn cyfarfod amlasiantaethol a dylid gwreiddio'r canlyniadau yng nghynllun gofal y plentyn neu'r person ifanc.

Dylai'r 10 parth greu darlun o anghenion cyffredinol y plentyn neu'r person ifanc a sut mae'r rhain yn cael eu diwallu ar hyn o bryd neu sut y gellid eu diwallu trwy wasanaethau presennol. Pan fydd

angen yn dal i fod heb ei ddiwallu ar ôl archwilio'r gwasanaethau cyffredinol neu arbenigol, mae'n bosibl y bydd angen pecyn gofal wedi'i deilwra.

1. Ymddygiadau sy'n herio

Ymddygiad, o'i gymharu â phlant sydd yr un oedran, o'r fath ddwysedd, amllder neu hyd sy'n golygu bod diogelwch corfforol yr unigolyn neu bobl eraill yn debygol o fod mewn 'perygl difrifol' ac ymddygiad sy'n debygol o amharu ar dwf personol, datblygiad a bywyd teuluol plentyn ac sy'n cynrychioli her i wasanaethau, i deuluoedd ac i'r plant eu hunain, sut bynnag y caiff ei achosi.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

2. Anghenion seicolegol ac emosiynol

Y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir fel arfer yn yr oedran hwn, defnyddiwch y parth hwn i gofnodi anghenion seicolegol ac emosiynol y plentyn neu'r person ifanc a sut y gallant gyfrannu at yr anghenion gofal cyffredinol, gan nodi'r achosion sylfaenol. Dylid bod dystiolaeth sy'n dangos a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhwylder seiciatrig eisoes sydd wedi cael diagnosis ac a fu newidiadau diweddar yn ei anghenion seicolegol a'u heffeithiau ar iechyd a llesiant y plentyn neu'r person ifanc. I osgoi pwysoli dwbl, dylid ystyried anawsterau o ran ymddygiad nad ydynt yn ymwneud yn glir ag anawsterau iechyd meddwl sylfaenol o dan y **'parth ymddygiad heriol' ac nid y parth hwn**. Pan na all y plentyn neu'r person ifanc fynegi ei anghenion seicolegol neu emosiynol (hyd yn oed gyda chymorth priodol) yn sgil natur ei anghenion cyffredinol, dylid cofnodi hyn a dylid gwneud dyfarniad proffesiynol ar sail yr holl dystiolaeth a gwybodaeth ynglŷn â'r plentyn neu'r person ifanc.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?

4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

3. Cyfathrebu

Bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael anawsterau cyfathrebu hirdymor y gellir eu rhagweld a'u rheoli trwy ddod yn gyfarwydd â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r parth hwn nodi'n glir sut mae'r plentyn neu'r person ifanc fel arfer yn cyfathrebu yn ogystal ag unrhyw newidiadau o ran cyfathrebu. Os bydd gan blant neu bobl ifanc anghenion cyfathrebu, dylid cyfleu'r rhain yn asesiad y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r adran hon yn ymwneud ag anawsterau mynegi a deall, nid anawsterau dehongli iaith.

Cymraeg yw iaith gyntaf rhai plant a phobl ifanc. I sicrhau y gallant fynegi eu hunain a bod gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol, mae'n bwysig fod modd iddynt ddefnyddio eu hiaith eu hunain yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i blant a phobl ifanc na allant gyfathrebu trwy siarad.

O 14 mlwydd oed, dylid cynnig eiriolaeth i bobl ifanc fel rhan o'u cyfnod pontio i wasanaethau i oedolion.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

4. Symudedd

Mae'r adran hon yn ystyried plant a phobl ifanc sydd â phroblemau symud. Pan gaiff problemau symud eu nodi, dylai asesiad risg cyfoes o symud ac ymdrin a chwympo fodoli neu dylid bod hwn wedi ei gynnal fel rhan o'r broses asesu gyfredol, gan ystyried effaith a thebygolrwydd unrhyw ffactorau risg.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?

3. Beth sy'n gweithio?

4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

5. Maeth, bwyd a diod

Pan fydd plant a phobl ifanc yn wynebu risg o ddiffyg maethiad, dadhydradiad a/neu allsugno, dylent gael naill ai asesiad presennol o'r anghenion hyn neu dylid bod un wedi'i gynnal fel rhan o'r broses asesu gyda chynllun rheoli'n cyd-fynd ag unrhyw ffactorau rheoli neu risg. Rhaid i asesiadau o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylid eu defnyddio yn unol â dyfarniad clinigol. Mae bwydo drwy'r ymysgaroedd trwy gastrostomi sydd wedi'i hen sefydlu yn ddull diogel o fwydo ac ni fyddai plant neu bobl ifanc yn cael eu hystyried fel rhai sy'n wynebu risg mwyach.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

6. Ymataliaeth ac ysgarthu

Pan fydd problemau ymataliaeth yn cael eu nodi, pan fydd asesiad ymataliaeth llawn ar sail tystiolaeth yn bodoli neu wedi'i gynnal fel rhan o'r broses asesu, pan fydd unrhyw gyflyrau sylfaenol wedi'u nodi, a phan fydd effaith a thebygolrwydd unrhyw ffactorau risg wedi'u gwerthuso.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

7. Hyfywedd y croen a'r meinwe

Dylai tystiolaeth o friwiau ddod o asesiad o glwyfau ar sail tystiolaeth neu asesiad o hyfywedd y meinwe a gwblhawyd gan weithiwr proffesiynol priodol. Yma, ystyr cyflwr y croen yw unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar gyfanrwydd y croen neu y gallai effeithio arno. Dylai gwaith rheoli briwiau gyd-fynd â chynllun gofal sy'n nodi'r briw gyda gwerthusiad rheolaidd o'r driniaeth a roddir, a osodir ar siart asesu clwyfau. Dylai'r siart hwn nodi'n glir ddimensiynau a golwg y briw. Dylid darparu sail resymegol ar gyfer y math o orchudd. Dylai'r parth hwn ystyried y berthynas â pharthau eraill, gan gynnwys symudedd a maeth.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

8. Anadlu

Dylai tystiolaeth o anawsterau anadlu ddod o asesiad clinigol gan y gweithiwr proffesiynol priodol, e.e. nyrs resbiradol. Yma, ystyr cyflwr anadlu yw unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar resbiradu a'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu plentyn neu'r person ifanc i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol yn annibynnol. Wrth bennu lefel yr angen, y ffactor pwysicaf yw'r wybodaeth a'r sgîl sydd eu hangen i reoli'r angen clinigol.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

9. Cyffuriau, therapïau a meddyginiaethau

Mae disgwyl y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cadw cyfrifoldeb am reoli a rhoi meddyginiaethau a ragnodir - pan fydd trefniadau'r meddyginiaethau'n gymhleth oherwydd dognau sy'n amrywio, nifer fawr o feddyginiaethau a gwahanol ddulliau o'u rhoi.

Mewn rhai achosion, bydd plentyn neu'r person ifanc neu ei ofalwr yn rheoli ei feddyginiaeth ei hun a gall hyn fynnu lefel uchel o sgîl.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

10. Trawiadau neu newid cyflyrau ymwybyddiaeth

Gall newid cyflyrau ymwybyddiaeth gynnwys amrywiaeth o gyflyrau sy'n effeithio ar ymwybyddiaeth.

1. Disgrifiwch anghenion gwirioneddol y plentyn neu'r person ifanc (gellid cyfeirio hyn at y dystiolaeth ategol).
2. Sut mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?
3. Beth sy'n gweithio?
4. Pa ymyriadau neu atgyfeiriadau pellach sydd eu hangen ar gyfer yr angen na ddiwallwyd?

Anghenion gofal sylweddol eraill i'w hystyried:

Gallai fod amgylchiadau, ar sail fesul achos, pan fydd gan blentyn neu berson ifanc anghenion penodol na chwmpesir gan y parthau gofal a ddisgrifir uchod. Cyfrifoldeb yr asesydd yw pennu a chofnodi graddfa a math yr anghenion hyn. Bydd angen pwysoli difrifoldeb yr angen a'i effaith ar y plentyn neu'r person ifanc, gan ddefnyddio barn broffesiynol yr asesydd, mewn ffordd debyg i'r parthau eraill. Bydd angen defnyddio'r gwaith pwysoli hwn yn y penderfyniad terfynol hefyd.

Adran Grynhoi

Canlyniadau y gellir eu cyflawni drwy wasanaethau cyffredinol ac arbenigol

Canlyniad 1:		
Beth sydd angen ei wneud?	Gan bwy	Erbyn pryd

Canlyniad 2:		
Beth sydd angen ei wneud?	Gan bwy	Erbyn pryd
Canlyniad 3:		
Beth sydd angen ei wneud?	Gan bwy	Erbyn pryd

Tystiolaeth o anghenion sydd heb eu bodloni, a chynllun gweithredu

Cam gweithredu 1:		
Sut y gellir bodloni hyn?	Gan bwy	Erbyn pryd

Argymhellion o ran cymhwysedd ar gyfer gofal parhaus i blant a phobl ifanc:-

Enw	Rôl	Llofnod
-----	-----	---------

ATODIAD C

Coughlan a Haringey

1. **Ystyr 'incidental or ancillary' (yn gysylltiedig â / yn ategol at)**
2. Diffiniad yr *Oxford English Dictionary* o 'incidental' yw "happening as a minor accompaniment to something else".
3. Y diffiniad o 'ancillary' yw "in addition to something else, but not as important". O ddarllen y diffiniadau uchod, mae'n hawdd deall pam y byddai'r ffordd y defnyddir y ddau air yn ymddangos yn debyg iawn.
4. **Coughlan**
5. Daeth y llys i'r casgliad y **gall** yr Ysgrifennydd Gwladol eithrio rhai gwasanaethau nyrsio o'r gwasanaethau a ddarperir gan y GIG. Yna, gellir darparu gwasanaethau o'r fath fel gwasanaeth cymdeithasol neu wasanaeth gofal yn hytrach na gwasanaeth ieuchyd.
6. Nododd fod y gwasanaethau nyrsio y gellir eu darparu fel rhan o'r gwasanaethau gofal yn gyfyngedig i'r rhai y gellir, yn ddilys, eu hystyried yn rhai sy'n cael eu darparu mewn perthynas â llety sy'n cael ei ddarparu i'r dosbarthiadau o bobl y cyfeirir atynt yn adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (a ddiddymwyd yng Nghymru a'i disodli gan adran 47 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) y mae arnynt angen gofal a sylw; mewn geiriau eraill fel rhan o becyn gofal gwasanaethau cymdeithasol.
7. Nid yw'r ffaith bod y gwasanaethau nyrsio i'w darparu fel rhan o ofal y gwasanaethau cymdeithasol ac y bydd yn rhaid i'r person dan sylw dalu amdanynt (oni bai bod adnoddau'r person hwnnw'n golygu y bydd yn cael ei eithrio rhag gorfod talu am y gwasanaethau hynny), yn atal yr ysgrifennydd gwladol rhag penderfynu peidio â darparu'r gwasanaethau hynny.
8. Nid yw'r ffaith y gellir ystyried rhai gwasanaethau nyrsio yn briodol fel rhan o ofal gwasanaethau cymdeithasol, i'w ddarparu gan yr awdurdod lleol, yn golygu y gellir trin yr holl wasanaethau nyrsio a ddarperir i'r rhai sydd o dan ofal yr awdurdod lleol yn y modd hwn. Gall y raddfa a'r math o nyrsio sy'n ofynnol mewn achos unigol olygu na fyddai'n briodol ystyried bod y cyfan neu ran o'r nyrsio yn rhan o'r 'pecyn gofal' y gellir ei ddarparu gan awdurdod lleol. Ni ellir tynnu unrhyw linell gyfreithiol fanwl gywir rhwng y gwasanaethau nyrsio hynny y mae modd eu trin fel pe baent wedi eu cynnwys mewn pecyn o wasanaethau gofal o'r fath, a'r rhai nad oes modd eu trin yn y modd hwnnw.
9. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwasanaethau hynny y gellir ac na ellir eu darparu yn ymwneud â gradd y gwahaniaeth, ac mewn achos ffiniol bydd yn dibynnu ar werthusiad gofalus o ffeithiau'r achos unigol. Fodd bynnag, fel arwydd cyffredinol iawn o ble y dylid tynnu'r llinell, gellir dweud, os yw'r gwasanaethau nyrsio (i) **yn gysylltiedig yn unig â darparu'r llety, neu'n ategol at ddarparu'r llety**, y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i'w ddarparu i'r categori o bersonau y mae adran 21 o Ddeddf 1948 yn cyfeirio ato a (ii) eu bod o natur y gellir disgwyl i awdurdod sydd

â'r prif gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ei ddarparu, yna gellir eu darparu o dan adran 21.

10. Byddir yn gwerthfawrogi bod rhan gyntaf y prawf yn canolbwyntio ar ansawdd cyffredinol y gwasanaethau a'r ail ran ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
11. Aeth y dyfarniad ymhellach a dweud nad oeddent yn derbyn casgliad y barnwr gwreiddiol ei bod yn rhaid i bob gofal nyrsio fod yn gyfrifoldeb i'r GIG yn unig a bod rhaid iddo gael ei ddarparu gan yr awdurdod iechyd. Mae'r penderfyniad ynghylch a all gael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol yn un y bydd raid ei wneud ar sail asesiad o amgylchiadau'r unigolyn dan sylw. Derbyniodd yr ysgrifennydd gwladol, os angen iechyd yw'r prif angen, mai cyfrifoldeb y GIG yw hynny, hyd yn oed pan fydd yr unigolyn wedi'i leoli mewn cartref gan awdurdod lleol.
12. Cydnabu'r Llys y gallai'r gwasanaethau y gellir eu trin yn briodol fel cyfrifoldebau i Awdurdod Lleol esblygu wrth i safonau newid.
13. O ran y meini prawf cymhwysedd, dywedodd y Llys fod angen cael o leiaf dau gategori o bobl ... *"those who because of their health needs, should be regarded as wholly the responsibility of a health authority. Secondly, there are those whose nursing services in general can be regarded as being the responsibility of the LA but whose additional requirements are the responsibility of the NHS."*
13. Roedd y dyfarniad yn glir na all yr awdurdod lleol dalu costau gwasanaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb iddo oherwydd telerau adran 21(8) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.
14. Roedd y llys yn glir yn ei ddyfarniad, sef *"if a portion of nursing can still be provided as a service for which the LA is responsible, then we do not see anything improper in those services being charged for under the la regime. Other services for which the NHS is responsible can be provided on health service terms."*

Casgliad Coughlan:

15. Daeth y llys i'r casgliad **nad oes** gan y GIG gyfrifoldeb llwyr dros bob gofal nyrsio ac y gall gofal nyrsio ar gyfer claf â salwch cronig gael ei ddarparu gan awdurdod lleol fel gwasanaeth cymdeithasol mewn achosion priodol, ac y gallai'r claf fod yn atebol am gostau'r gofal hwnnw gan ddibynnu ar fodd y claf. **Nid** oedd yn anghyfreithlon i'r awdurdod iechyd benderfynu trosglwyddo cyfrifoldeb am y gofal nyrsio cyffredinol i'r awdurdod lleol: **"Whether it is lawful depends generally on whether the nursing services are merely incidental or ancillary to the provision of the accommodation which a local authority is under a duty to provide and of a nature which it can be expected that an authority whose primary responsibility is to provide social services can be expected to provide."**
16. **Haringey**
17. Derbyniodd y llys fod gwahaniaeth bras rhwng y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd fod y drafodaeth yn Coughlan yn ddefnyddiol o ran y dangosyddion sy'n berthnasol i'r achos hwnnw, h.y. Nid yw darpariaethau'r Ddeddf

Plant i'w hystyried yn gyffredinol yn rhai sy'n lleihau neu'n disodli rhwymedigaethau cyhoeddus pwysig fel y'u pennir yn Neddf y GIG.

18. Fe wnaeth ategu Coughlan drwy ddweud bod graddfa'r gofal nyrsio a'r math o ofal nyrsio yn arbennig o bwysig, yn yr un modd ag y mae'r cwestiwn a yw'r ddarpariaeth yn gysylltiedig â rhyw wasanaeth arall y mae'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn ei ddarparu'n gyfreithlon, neu a yw'n ategol ato, ac a yw o natur y gellir disgwyl i awdurdod o'r fath ei ddarparu.
19. Roedd y Llys yn glir nad oedd am greu rhywbeth sy'n gyfochrog i'r gwasanaeth iechyd gwladol neu sy'n ei ddisodli, y gallai unigolion ei orfodi yn erbyn yr awdurdod lleol.

20. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

21. Mae adran 47 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan:

"Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person ifanc am ofal a chymorth drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster y mae'n ofynnol ei ddarparu o dan ddeddfiad iechyd, oni bai y byddai gwneud hynny yn gysylltiedig â gwneud rhywbeth arall i ddiwallu anghenion, neu'n ategol at wneud hynny."

22. Mae adran 47 o Ddeddf 2014, felly, yn ymgorffori cymal cyntaf Coughlan sy'n berthnasol i blant ac oedolion fel ei gilydd ac yn gosod cyfyngiadau ar bwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd. Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu angen person am ofal a chymorth drwy ddarparu gwasanaeth y mae'n rhaid ei ddarparu o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (neu ddeddfiadau iechyd penodedig eraill). Y man cychwyn yw na chaniateir i awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth drwy ddarparu gwasanaethau iechyd y mae'n ofynnol iddynt gael eu darparu o dan ddeddfiad iechyd ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig.
23. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â / yn ategol at ("incidental or ancillary") rhywbeth arall y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i ddiwallu anghenion person o dan adrannau 35 i 45 (diwallu anghenion oedolion, plant a gofalwyr am ofal a/neu gymorth) neu i ddarparu gwasanaethau eraill o dan adran 15 (gwasanaethau ataliol). Mewn rhai amgylchiadau, gall awdurdodau lleol ganiatáu i staff sydd â hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth briodol ymgymryd â rhai tasgau penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd tra'n darparu gofal cymdeithasol. Enghraifft o hyn yw'r cymorth a ddarperir ar gyfer gweinyddu rhywfaint o feddyginiaeth. Hyd yn oed pan fo gan awdurdod lleol y pŵer i ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â rhywbeth arall sy'n cael ei wneud, neu'n ategol ato, nid oes ganddo hawl er hynny i ddiwallu anghenion neu ddarparu gwasanaethau ataliol drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig.
24. Nid yw'r gwaharddiad hwn ar awdurdod lleol sy'n darparu gofal nyrsio yn ei atal rhag trefnu i ddarparu gofal nyrsio a llety mewn cartref nyrsio, ar yr amod bod

cydsyniad wedi ei gael gan y corff GIG perthnasol (a bennir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Darparu Gwasanaethau Iechyd) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1919 (Cy. 285)), neu, os yw'r achos yn un brys, bod y trefniadau a wneir yn rhai dros dro ac y ceir cydsyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

25. **Angen Iechyd Sylfaenol**

26. Yn achos *Grogan v Bexley NHS Care Trust* 2006, ystyriodd y llys pwy oedd yn gyfrifol am dalu am lety a chymorth yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hwn yn fater yn yr Uchel Lys, lle'r oedd y person dan sylw yn dadlau bod y penderfyniad i wrthod cyllid llawn y GIG iddi yn anghyfreithlon, gan fod y meini prawf cymhwysedd a roddwyd ar waith gan y corff iechyd yn groes i Coughlan.
27. Penderfynodd Mr Ustus Charles nad oedd y corff iechyd wedi sefydlu meini prawf nac wedi cymhwyso meini prawf a oedd yn nodi'n briodol y prawf neu'r dull gweithredu i'w ddilyn wrth benderfynu a oedd angen sylfaenol yr hawlydd yn angen iechyd. Wrth wneud ei benderfyniad, nododd yr Ustus Charles fod y prawf 'terfynau gofal cymdeithasol' yn un statudol yn wreiddiol (h.y. adran 21(8) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 - nawr adran 47(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014).
28. Roedd y llys o'r farn bod y prawf 'angen iechyd sylfaenol' yn ddyfais bolisi a ddatblygwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac er bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i gyflwyno polisi, ni allai drwy ganllawiau danseilio'r drefn statudol. Gan na ddylai fod bwch mewn hawl, barn y llys oedd mai'r unig ffordd o ddatrys y broblem hon (ac eithrio drwy ddiwygio statudol) oedd i'r GIG ostwng y bar polisi i'r un uchder ag a osodwyd gan y Llys Apêl yn Coughlan wrth ddiffinio terfynau cymorth gofal cymdeithasol.
29. Mae'n amlwg, felly, mai dim ond mewn perthynas ag oedolion y cymhwysir y gofyniad 'angen iechyd sylfaenol' ar hyn o bryd (ni chaiff ei drafod fel ystyriaeth yn *Haringey*) ac er y derbynnir mai dyfais bolisi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw hon, mae'n un ddylanwadol iawn y glynwyd ati'n benodol yn Coughlan a'i hailadrodd mewn dyfarniadau. Cyngorwyd eisoes, wrth ddiwygio'r fframwaith presennol ar gyfer oedolion, y byddai gwyro oddi wrtho yn golygu y byddai angen llunio polisi gwahanol ac ymgynghori arno.